

# canllaw rhieni a gofalwyr i brifysgol.

wgu.ac.uk/rhieni

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University





# croeso.

Rydym yn sylweddoli bod trosglwyddo o'r ysgol neu'r coleg nid yn unig yn anodd i lawer o fyfyrwyr ond ei fod yn heriol i'w rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr hefyd.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu i ddeall y broses ymgeisio, er mwyn i chi fedru cefnogi eich plentyn yn well.

Wrth fynd i'r brifysgol, dyma'r tro cyntaf y bydd eich plentyn yn sefyll ar ei draed ei hun, yn y rhan fwyaf o achosion, felly mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod sut y byddwn ni'n eu cefnogi – o'r eiliad y byddant yn cyrraedd hyd nes y byddant yn graddio – a thu hwnt pan fyddant yn mynd i fyd gwaith ac yn dilyn eu dewis yrfa.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, yna mae croeso cynnes iawn i chi gysylltu â ni neu dewch draw ar ddiwrnod agored.

I archebu lle yn ein diwrnod agored, ewch i **wgu.ac.uk/agored**

## cynnwys.


Croeso 2
Pam mynd i brifysgol? 3
Pam Prifysgol Glyndŵr Wrecsam 4
Dewis pwnc 8
Diwrnod agored 10
Ein lleoliad 11
Ymgeisio i brifysgol 12
Llenwi ffurflen gais UCAS 13
Gofynion derbyn 14
Cynigion a'r drefn Clirio 15
Cyllid myfyrwyr 16
Llety 18
Cymorth i fyfyrwyr 19

# pam mynd i brifysgol?

Os yw eich plentyn yn ystyried mynd i astudio mewn prifysgol, dyma ambell reswm pam y gallai hynny fod y dewis cywir iddyn nhw:

- Mae pobl sydd wedi graddio o brifysgol yn tueddu i fod â gwell rhagolygon cyflogaeth a mwy o gyfleoedd
- Mae'n gymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol a'i barchu gan gyflogwyr ledled y byd
- Potensial i ennill mwy o gyflog
- Mae'r profiad yn debygol o helpu'ch plentyn i ddod yn fwy annibynnol ac aeddfed
- Ehangu eu rhwydwaith cymdeithasol
- Mae'n llwybr i gymwysterau ar lefel uwch megis gradd Meistr neu radd Ymchwil.








# pam ein dewis ni?

## codi 45 lle yng ngwobrau dewis y myfyrwyr

Gwobrau Dewis y Myfyrwyr
What Uni 2019





## canmoliaeth am roi gwedd bersonol i gymorth myfyrwyr

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2019

## undeb myfyrwyr sydd wedi ennill sawl gwobr

UCM 2018, 2016



## gwasanaeth gyrfaoedd sydd wedi ennill gwobrau

Gwobr Rhagoriaeth AGCAS 2018 -
Cefnogi Cyflogadwyedd Myfyrwyr
a Graddedigion






## gwobr arian am safon yr addysgu

FFRHA 2017

## cyntaf yn y DU am gynhwysiad cymdeithasol

The Times and Sunday Times 2019






# pam ein dewis ni?

## Ymdeimlad cymunedol

Mae myfyrwyr bob amser yn sôn am naws gyfeillgar y gymuned ar ein campysau. O'n Hundeb Myfyrwyr bywiog ac ystod amrywiol o gymdeithasau myfyrwyr, i ddarlithwyr cefnogol sy'n teimlo fel teulu, mae myfyrwyr yn dweud bod astudio yma yn teimlo fel bod adref.

## Cymorth Personol

Rydym wedi cael ein canmol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) am y cymorth personol a roddwn i'n myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn elwa o'n tîm gyrfaoedd arobryn, cymorth datblygu sgiliau dysgu unigol, canolfan asesu Lwfans Myfyrwyr Anabl ar y safle, gwasanaeth cwnsela am ddim yn ogystal â llond gwlad o dimau cymorth eraill i wneud eich profiad yn y brifysgol y gorau y gall fod.

## Cyflogadwyedd

Ni yw'r uchaf yn y Gogledd am gyflogadwyedd ar lefel graddedigion (Arolwg Cyrchfan Ymadawyr Addysg Uwch 2016), a dyna pam rydyn ni wedi ein hysgogi i sicrhau bod myfyrwyr yn ein gadael yn 'barod i weithio'. Gall myfyrwyr gael cyngor wedi'i deilwra gan ein tîm gyrfaoedd arobryn, neu elwa o'r gefnogaeth fusnes a gynigir gan ein gwasanaeth Gwella Entrepreneuriaeth.

## Dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith

Mae dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith wrth wraidd portffolio ein cyrsiau, gan roi cyfleodd i fyfyrwyr weithio gyda diwydiant, cyflogwyr a chleientiaid proffesiynol. Drwy hyn caiff myfyrwyr gyfle i ennill profiad gwerthfawr drwy brofiad gwaith, lleoliadau, ymateb i briff byw a datblygu eu prosiectau menter eu hunain.




## Achredu

Caiff llawer o’n cyrsiau eu cydnabod gan ddiwydiant a busnes, a’u hachredu gan gyrff priodol, cydnabyddedig.

## Cyfleusterau Astudio

Mae ein campysau yn llawn cyfleusterau a chyfarpar astudio, a mannau ac offer dysgu i sicrhau bod gan fyfyrwyr bopeth sydd ei angen arnynt i gefnogi eu profiad prifysgol.

Rydym yn cynnig cymuned fywiog, gyfeillgar a chefnogol sy’n canolbwyntio ar ysbrydoli pob unigolyn i gyrraedd ei botensial trwy ragoriaeth academaidd. Gallwch ddarganfod mwy am hyn yn **wgu.ac.uk/cyfleusterau**

## Addysgu sy’n seiliedig ar ymarfer

Caiff myfyrwyr eu haddysgu gan staff sydd â phrofiad o ddiwydiant ac ymarfer proffesiynol, gan sicrhau eu bod yn cael y gymysgedd iawn o’r ymarferol a’r damcaniaethol. Bydd y prosiectau y mae myfyrwyr yn gweithio arnynt yn amrywio o ran maint; o gydweithio â busnesau lleol i ddatblygu a gwella arferion gwaith. Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd datrys problemau trwy’r syniadau blaengar diweddaraf a gwybodaeth dechnegol gyfoes.

## Tiwtor Personol

Rydym yn rhoi tiwtor personol i fyfyrwyr i’w helpu i gael y gorau o’u hastudiaethau. Ar adeg cofrestru byddant yn cael enw aelod o staff a fydd yn rhoi cyngor a chefnogaeth fugeiliol ac academaidd iddynt trwy gydol eu hastudiaethau.










# dewis pwnc.

Os oes gan eich plentyn uchelgais i fynd i yrfa benodol, yna mae'n debygol y bydd angen iddynt astudio gradd benodol i'w helpu i gyflawni'r uchelgais honno.

Gallwch chi eu helpu i ymchwilio i weld pa brifysgolion sy'n cynnig pa gyrsiau – defnyddiwch wefan UCAS (**www.ucas.com**) i chwilio am gyrsiau, darllenwch am fanylion y cyrsiau ar wefannau'r prifysgolion unigol a holwch i gael prosbectws.

Hyd yn oed os nad yw eich plentyn wedi penderfynu'n llawn ar yrfa eto, ni ddylai hyn eu hatal rhag dilyn pwnc y maen nhw'n ei fwynhau'n fawr.

Mae anogaeth rhieni yn allweddol yma – gall hi fod yn rhy hawdd diystyru awydd eich plentyn i astudio rhywbeth sydd ddim fel petai'n arwain at broffesiwn amlwg; yn lle hynny cofiwch ganolbwyntio ar y wybodaeth a'r sgiliau a gaiff eu datblygu ac a allai agor llu o gyfleoedd iddynt. Mae'n bwysig eu bod yn dechrau ystyried eu hopsiynau mor gynnar â phosibl, a gallwch chi helpu trwy drafod eu camau nesaf gyda nhw.

**Ydyn nhw eisiau astudio:**

- Pwnc penodol yn ddyfnach
- Pwnc sy'n gysylltiedig â gyrfa
- Pwnc hollol newydd




**Wrth ddewis beth i astudio, efallai y byddech am ofyn i'ch plentyn:**

- Pa bynciau fyddai gen ti ddiddordeb ynddynt am dair neu bedair blynedd arall?
- Beth wyt ti eisiau ei wneud ar ôl y brifysgol ac a fyddai dy ddewis bwnc yn dy helpu efo hyn?
- Pa gyrsiau sy'n derbyn y pynciau rwyt ti'n eu hastudio nawr?

Beth bynnag fydd eu dewis, mae gennym ddewis anferthol o gyrsiau i'w hastudio drwy sawl llwybr (sylfaen, israddedig, ôl-raddedig), ynghyd â llwybrau rhan-amser a llawn amser, gan wneud prifysgol yn gyfle perffaith i astudio rhywbeth y mae ganddynt ddiddordeb ynddo neu wrth eu bodd ag ef. Mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni astudio yn dechrau ddiwedd mis Medi, ond mae eraill yn dechrau ar ddyddiadau gwahanol yn ystod y flwyddyn; edrychwch ar dudalennau penodol y cyrsiau i gael manylion.



Ewch i ddarganfod ein cyrsiau yn **wgu.ac.uk/cwrs**




# diwrnodau agored.

Ar ein diwrnodau agored gallwch siarad â darlithwyr a myfyrwyr presennol a mynd am dro rownd y campws i weld ein cyfleusterau a'r llety.

Gallwch gael cymorth a chyngor ynghylch eu datganiad personol, sut i wneud cais, cyngor ar gyfweliadau, materion lles, cyllid a llawer mwy!

I archebu lle yn ein diwrnod agored, ewch i **wgu.ac.uk/agored**

Neu mae croeso i chi e-bostio **enquiries@glyndwr.ac.uk** neu ffonio ein tîm pwrpasol ar **01978 293 439**.




# ein lleoliad.

## lleoliad hygyrch.

| | | |
|---|---|---|
| Caer | 25 munud | 15 munud |
| Lerpwl | 50 munud | 1 awr 5 munud |
| Manceinion | 1 awr 10 munud | 1 awr 30 munud |
| Warrington | 45 munud | 1 awr 5 munud |
| Crewe | 55 munud | 45 munud |
| Stoke-on-Trent | 1 awr 10 munud | 1 awr 30 munud |
| Amwythig | 55 munud | 35 munud |

# ymgeisio i brifysgol.

Dyma'r drefn arferol yn y broses gwneud cais i brifysgol:

## Ewch i UCAS.com ac ymgeisiwch ar-lein

- Chwiliwch am **gyrsiau addas**
- Gwiriwch y **gofynion derbyn** a gwnewch yn siŵr eu bod o fewn cyrraedd graddau tebygol eich plentyn
- **Dewiswch gyrsiau** (hyd at 5 dewis)
- Cyflwynwch eich **cais gorffenedig i UCAS**

## Derbyn ymateb gan eich dewisiadau

Gall y rhain fod yn gynigion amodol, cynigion diamod neu, mewn rhai achosion, yn aflwyddiannus. Dylech ddarllen eich e-bost yn aml rhag ofn y bydd un o'ch prifysgolion eisiau rhagor o wybodaeth.

## Ymateb i gynigion

Os yw'r dewis cadarn yn gynnig diamod yna ni fydd angen dewis wrth gefn. Gwrthodir yr holl gynigion eraill.

## Aros am y canlyniadau

**Cadarnhad**
Os yw'r myfyriwr yn bodloni amodau eu cynnig cadarn, maent wedi cael lle yn y Brifysgol honno.

**Os ydynt yn methu eu graddau**
Os yw eich plentyn wedi methu'r graddau angenrheidiol, mae'n bosibl y gall eu lle yn dal gael ei gadarnhau gan eu dewis cadarn. Bydd eu cais UCAS yn dangos hyn felly dylent edrych ar hwnnw ar ddiwrnod y canlyniadau. Os na wnaed penderfyniad, dylent gysylltu â'u dewis cadarn. Os ydynt yn aflwyddiannus yn eu dewis cadarn, byddant yn symud yn awtomatig i gael eu hystyried gan eu dewis wrth gefn.

**Clirio**
Os nad ydynt yn cael eu derbyn gan eu dewis wrth gefn, maent yn mynd mewn i'r drefn Clirio. Os nad oes gan fyfyrwyr gynnig am le mewn prifysgol, yna dyma'r broses sy'n chwilio am le iddynt mewn prifysgolion eraill. Dylai eich plentyn gysylltu â'r prifysgolion y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt i weld a oes llefydd ar gael. Gellir hefyd weld y llefydd sydd ar gael ar wefan UCAS.



# llenwi cais UCAS.

Gall y broses gwneud cais i brifysgol fod yn frawychus i'ch plentyn – a gall fod yn drech ar y rhieni hefyd os nad ydynt yn hollol siŵr sut mae'r broses yn gweithio, er eu bod eisiau bod yn gefnogol. Rydym ni yma i helpu.

Os yw'ch plentyn yn gwneud cais i brifysgol, yna bydd proses ymgeisio swyddogol Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau (UCAS) yn dechrau yn yr hydref pan fydd ym Mlwyddyn 13.

Fodd bynnag, mae'n werth dechrau meddwl am bethau cyn hynny, gan y byddwch angen amser i drafod eu hopsiynau h.y. ym mha yrfaoedd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, pa gyrsiau sydd ar gael i gefnogi hyn ac ym mhle yr hoffen nhw astudio.

Os yw eich plentyn wedi penderfynu mai mynd i'r Brifysgol yw'r peth iawn iddyn nhw, dyma beth sydd angen iddynt wybod:

- Caiff yr holl geisiadau eu gwneud yn electronig drwy wefan UCAS. Mae ffi fechan i'w dalu, a'r union gost yn dibynnu a ydynt yn ymgeisio am un cwrs neu am yr uchafswm o bump.
- Pum dewis sydd gan fyfyrwyr (gall y rhain fod yr un cwrs mewn sefydliadau gwahanol neu sawl cwrs gwahanol mewn un sefydliad)
- Cyflwynir un cais ar gyfer pob un o'r pum dewis.
- Ar y cam hwn does dim angen iddynt ddweud pa un fyddai orau ganddynt.
- Dim ond y cais a wnaed iddyn nhw y mae pob prifysgol yn ei weld, nid ydynt yn gwybod pa sefydliadau eraill y mae'r myfyriwr wedi gwneud cais iddynt.

# gofynion derbyn.

Mae'r gofynion derbyn ar gyfer pob cwrs yn wahanol. Gall y gofynion fod wedi'u nodi fel pwyntiau tariff UCAS (e.e. 112 pwynt tariff UCAS) neu fel graddau penodol (e.e. graddau BBC yn Safon Uwch/ Lefel-A).

Nid llwybrau traddodiadol Safon Uwch/ Lefel-A yw'r unig ffordd i fynd i addysg uwch, cofiwch — mae cyrsiau Mynediad, Diplomas BTEC a hyd yn oed profiad gwaith/bywyd yn gallu fod yn ffyrdd eraill i gyrraedd.

Er mwyn helpu i gyfrifo pa raddau sydd eu hangen i fynd ar gwrs penodol, ewch i **ucas.com/ucas/tariff-calculator**.

Mae llawer o'n rhaglenni yn cynnig blwyddyn sylfaen i'r myfyrwyr hynny sydd ddim yn bodloni'r gofynion derbyn ar gyfer gradd anrhydedd.


Gallai blwyddyn sylfaen hefyd fod y dewis iawn i ymgeiswyr sydd wedi bod allan o addysg am gyfnod neu sy'n chwilio am her newydd trwy gychwyn ar lwybr gyrfa newydd. **wgu.ac.uk/sylfaen**

## Help i wneud cais

Mae'r holl gais yn cael ei wneud ar-lein drwy UCAS (**ucas.com**), felly mae'n werth dod yn gyfarwydd â'u gwefan, a gwneud nodyn o'r dyddiadau pwysig yn enwedig dyddiadau cau. Mae pedair rhan allweddol i'r cais: manylion personol, addysg, datganiad personol a geirda.

Y rhan hollbwysig yw'r datganiad personol, gan mai dyma'r cyfle iddynt ddangos pam eu bod yn ymgeisydd perffaith ar gyfer y cwrs gradd dan sylw. Sylwch y bydd gan ysgol/coleg eich plentyn eu dyddiadau cau eu hunain i roi amser iddynt ysgrifennu'r geirda.

I gael awgrymiadau ar ysgrifennu'r datganiad personol, ewch i **wgu.ac.uk/datganiadpersonol**




# cynigion a chlirio.

Ar ôl cyflwyno'r ffurflen gais, bydd UCAS yn anfon hysbysiad eu bod wedi'i dderbyn ac yna byddant yn anfon y cais ymlaen i'r prifysgolion perthnasol.

Bydd tiwtoriaid derbyn y prifysgolion yn ystyried y cais cyfan, sef y wybodaeth a roddir yn y datganiad personol a'r geirda hefyd – nid dim ond y canlyniadau neu'r canlyniadau tebygol.

Mae tri chanlyniad posibl i gais:

Cynnig amodol – Mae hyn yn golygu y cynigir lle i'ch plentyn os yw'n llwyddo i fodloni amodau penodol, sef graddau penodol fel rheol.

Cynnig diamod – gan fod y gofynion derbyn eisoes wedi'u bodloni, nid oes amodau pellach a dim angen gwneud dim byd arall i gael eu derbyn ar y cwrs.

Aflwyddiannus neu wrthod – nid yw'r gofynion derbyn wedi'u bodloni ac ni chynigwyd lle. Caiff rheswm ei roi fel arfer, ond bydd tîm Derbyn y Brifysgol yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth os oes angen.

Os nad yw eich plentyn wedi derbyn unrhyw gynigion, os na chawsant y graddau roeddent yn ei ddisgwyl neu os ydynt yn rhy hwyr yn ymgeisio drwy'r sianeli arferol, yna'r broses Clirio yw'r opsiwn olaf. Gall ymgeiswyr gysylltu â phrifysgolion yn uniongyrchol i holi am le ar gyrsiau sydd â llefydd yn dal ar gael.



# cyllid myfyrwyr.

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â phrifysgol yn gallu bod yn bryder mawr i rieni a myfyrwyr ond mae cyllid ar gael sydd wedi'i gynllunio i roi modd i addysg uwch fod o fewn cyrraedd pawb.

**Benthyciadau Myfyrwyr**

Gall pob myfyriwr sy'n bwriadu astudio mewn prifysgol yn y Deyrnas Unedig wneud cais am fenthyciad myfyriwr trwy'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr / Student Loans Company (**slc.co.uk**).

Ffeithiau allweddol:

- Dim ond ar ôl iddynt adael y brifysgol y bydd myfyrwyr yn dechrau talu unrhyw beth yn ôl, a hynny pan fyddant yn gweithio ac yn ennill o leiaf £25,725* y flwyddyn, £2,144 y mis neu £495 yr wythnos.
- Y swm i'w dalu unwaith y bydd myfyriwr yn ennill dros y trothwy yw cyfradd sefydlog o 9% o'r incwm sy'n uwch na'r trothwy.



- Os yw'r myfyriwr yn peidio ag ennill cyflog neu os yw eu hincwm yn gostwng yn is na'r trothwy, yna bydd eu taliadau yn stopio.
- Nid yw'r swm y mae rhieni'n ei ennill yn effeithio ar gael benthyciad i dalu ffioedd cwrs, a dylai fod ar gael i'r mwyafrif o fyfyrwyr sydd ddim wedi gwneud gradd eisoes.
- Nid yw'r ddyled yn trosglwyddo i unrhyw un arall.

*sylwer bod trothwy incwm benthyciadau myfyrwyr yn newid ar 6 Ebrill bob blwyddyn.

## Benthyciadau a Grantiau Cynhaliaeth


Gall benthyciad myfyriwr dalu mwy na ffioedd dysgu eich plentyn. Mae'n bosibl y byddant hefyd yn gymwys i gael benthyciad cynhaliaeth i'w helpu i dalu am eu costau byw, fel llety. Mae faint o fenthyciad cynhaliaeth y byddent yn ei gael yn dibynnu ymhle y byddent yn astudio ac incwm eich cartref.

Mae'n bosibl hefyd y gall eich plentyn gael help ychwanegol yn dibynnu ar ei amgylchiadau, er enghraifft os yw'n talu am ofal plant, os oes ganddo oedolyn sy'n dibynnu arno'n ariannol, neu os ganddo anabledd. Efallai y daw rhywfaint o hyn ar ffurf grantiau na fydd yn rhaid eu talu'n ôl.

Mae myfyrwyr o Gymru hefyd yn gallu elwa o'r pecyn cyllid myfyrwyr newydd gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu'r hyn sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Cenedlaethol trwy gymysgedd o fenthyciadau a grantiau nad ydynt yn ad-daladwy.

Bydd faint o gefnogaeth y maent yn gymwys ar ei chyfer, a'r math, yn dibynnu ar ble maent yn byw fel arfer. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/** neu cysylltwch â'n tîm lles myfyrwyr ar **01978 293295**.







# llety.

Rydyn ni'n gwybod eich bod eisiau gwybod y bydd eich plentyn yn byw mewn lle diogel mewn cymuned gefnogol.

Gall symud i le newydd fod yn gyffrous ac yn frawychus ar yr un pryd, felly byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu'ch plentyn i deimlo'n gartrefol.

Mae tri opsiwn llety ar gael: byw gartref, neuadd breswyl neu dŷ preifat.

Mae ein tîm Bywyd Preswyl a Champws wrth law i helpu'ch plentyn i ddod o hyd i gartref newydd gan eu cefnogi trwy'r symud mawr bob cam o'r ffordd.

Mae manylion llawn ynghylch y llety i'w cael yn **wgu.ac.uk/llety**

## Croeso i Bentref Wrecsam

Mae ein llety blaenllaw i fyfyrwyr wedi'i leoli ar ein prif gampws ac o fewn pellter cerdded hawdd i ganol y dref, y sîn gymdeithasol a nifer o archfarchnadoedd. Mae'r parcio am ddim yno a lle storio a chloi beiciau, diogelwch 24/7, canolfan chwaraeon ar y campws a'r WiFi holl bwysig, yn rhad ac am ddim ac yn ddiderfyn.

Mae digonedd o fannau cymdeithasol ac awyrgylch cymunedol yn ein neuaddau, sy'n berffaith ar gyfer gwneud ffrindiau newydd. Mae ein staff yn gyfeillgar ac yn rhwydd mynd atynt i siarad gan fod ganddynt bolisi drws agored, felly os yw eich plentyn angen unrhyw beth tra maen nhw gyda ni, mae pob croeso iddynt alw heibio.



# cymorth myfyrwyr.

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn yr amgylchedd cefnogol rydym ni'n ei gynnig.

Mae darlithwyr bob amser wrth law i roi cefnogaeth, mae maint ein dosbarthiadau yn fach, a hyn oll yn cyfrannu at gymuned gyfeillgar sy'n ymestyn ar draws y campws cyfan.

Mae myfyrwyr yn cael tiwtor personol ac mae ein tîm gwasanaethau cymorth wrth law i roi cyngor pe bai ei angen arnynt ac i ddod o hyd i atebion – o gymorth ag anabledd i gymorth wrth astudio'n academaidd a phopeth rhyngddynt.

Mae cefnogaeth bellach ar gael gan y timau ym maes cwnsela, cyllid a chyngor ar arian, caplaniaeth ac rydym yn ymfalchïo mai ni oedd y sefydliad addysg uwch cyntaf yn y Gogledd i ddod yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall.

# rhifau ffôn defnyddiol.

| | |
|---|---|
| Derbyn ac Ymholiadau | **01978 293439** |
| Llety | **01978 293344** |
| Lles Myfyrwyr | **01978 293295** |
| Cyllid Myfyrwyr a Chyngor ar Arian | **01978 293295** |
| Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr | **0300 100 0611** |
| Tîm Cynhwysiant | **01978 293266** |
| Llinell Gymorth a Gwasanaeth Cwsmeriaid UCAS | **0843 557 3708** |

**wgu.ac.uk/rhieni**

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University